YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1891. [RHIF 48.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda"—PAUL

RHYDDID GWLADOL A CHREFYDDOL.

"Ystyriwch, ymgynghorwch, a thraethwch eich meddwl. Wele, meibion Israel ydych chwi oll: moeswch rhyngoch air a chynghor yma." Barnwyr xix. 30; xx. 7.

Pregeth a draddodwyd gan y Parch. E. D. Priestley Evans, Kidderminster, yn Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, Hydref 1, 1891.

DYMUNWN ymdrin heddyw â'r pwnc o ryddid gwladol a chrefyddol, gan fod y pwnc yn amserol o herwydd ei gyssylltiad â dathliad can'mlwyddol *riots* mawrion Priestley yn Birmingham. Nid oedd y *riots* hyn ond un enghraifft fechan allan o lawer o orlifiad nwydau yn y gyfres hir o ymdrechion ydynt wedi cymmeryd lle o blaid rhyddid gwladol a chrefyddol. Bu yr ymdrechion yn aml a blin, yn chwerw ac angeuol, rai o honynt; a buont bob amser yn ymdrechion rhwng ategwyr awdurdod ar y naill law, y sawl a gredant yn eu hanffaeledigrwydd eu hunain, a'r sawl a gredant yn y natur ddynol, fel y credai yr Iesu ynddi, yr Hwn oedd ganddo hyder yn naioni diweddaf y butain, ac yn well ganddo faddeu iddi nag i'r rhagrithiwr. Mae yn ymdrech rhwng y sawl a gredant fod eu cyd-ddynion yn atebol i'w brenin a'u hoffeiriaid, a'r sawl a gredant fod gwyr a gwragedd yn atebol i'w cydwybodau, a thrwy eu cydwybodau, i'w Duw, y rhai a gredant fod pob enaid unigol yn blentyn Duw, yn werth ei gadw a'i ddadblygu; oblegyd danfonwyd ef i amlygu rhyw nodwedd newydd o gymmeriad Duw, ac i wneyd rhyw ran arbenig o waith Duw na all neb arall ei wneyd, ac na fwriadwyd iddo ei wneyd, a barn yr hwn nid yw i gael ei mogi, ond yn werth ei chael, beth bynag yw. Mae yr

ymdrech, gan hyny, yn ei gwraidd, yn ymdrech grefyddol. Sylfaenir hi ar ein cred grefyddol parthed i berthynas yr enaid â Duw—p'un a all hi fyned yn uniongyrchol at ei Duw, neu y rhaid iddi fyned trwy offeiriad neu frenin; p'un a oes gyda chwi hawl i feddwl drosoch eich hunain, neu y rhaid i chwi feddwl fel yr erchir i chwi gan eich offeiriad neu eich penadur. Mae ategwyr awdurdod wedi dweyd bob amser y rhaid i chwi gredu a meddwl fel yr erchir i chwi. 'Does genych chwi ddim hawl i'ch opiniynau eich hunain. Yr ydych yn perthyn i'ch eglwys ac i'ch cenedl cyn eich bod yn perthyn i'ch Duw. O ganlyniad, mae y bobl hyn bob amser wedi codi y waedd, "Yr eglwys a'r brenin." Dyma oedd y waedd yn *riots* Priestley—fod yr eglwys a'r brenin mewn perygl o gael eu taro yn eu talcen gan yr amddiffynwyr ffyrnig hyn o ryddid ydynt wedi maentumio'r gred y rhaid i chwi feddwl allan eich meddyliau drosoch eich hunain, ac nid hyny yn unig, ond fod genych hawl i roddi mynegiad iddynt. Credent eich bod yn perthyn i Dduw yn gyntaf, uwchlaw pobpeth arall, ac oddieithr fod gan ddyn hawl i'w opiniwn, nis dichon fod y fath beth a chynnydd. Credant i Dduw a roddodd i ddyn fywyd roddi iddo ryddid yr un pryd. A dyma syniad Cristionogaeth. Cristionogaeth Crist yw yspryd rhyddid personol. Dyma grefydd yr Iesu, a 'dyw y grefydd hon ddim wedi ei chwareu allan, fel mae llawer am i ni feddwl. Mae arnom fwy o ddyled iddi nag a feddyliwn, a bydd arnom ddyled iddi am lawer adeg etto. Cristionogaeth Crist oedd y *theory* fwyaf chwyldroadol a ddaeth erioed i'r byd, a 'dyw hi etto ddim wedi ei deall yn drwyadl, na'i chredu hyd yn nod gan y sawl a'i proffesant. A'r rheswm am fy mod yn Gristion ac nid yn *theist* pur yw am mai crefydd yr Iesu yw yr unig grefydd sydd wedi gwella'r byd. Hi yw hanfod cynnydd. Mae wrth wraidd pob blaen fynediad. A phaham? Am ei bod yn cymmeryd golwg wahanol ar fywyd, ac ar natur ddynol, i'r olwg a gymmerir gan bob crefydd arall dan yr haul. Cymmerwch, er enghraifft, Bwdiaeth, yr hon a ddywedir yw y grefydd oreu, nesaf at Gristionogaeth. Ond beth yw ei syniad hi am fywyd? Mae bywyd yn felldith fawr, a dyledswydd pob un yw cael gwared o fywyd cyn gynted ag sy'n bossibl. Nis gallwch gael gwared o hono trwy farwolaeth yma, oblegyd fe barhewch i fyw cyhyd ag yr ydych yn anmherffaith. Yr unig ffordd i gael gwared o fywyd yw trwy ddyfod yn berffaith. Y sant perffaith yn unig all gael gwared o fywyd—o'r felldith ofnadwy hon. Mae y Bwdiaid, gan hyny, yn addoli y dynion ydynt wedi bod yn abl i gael gwared o fywyd, hyny yw, ni addolant dduw. Addolant y saint, addolant y *Budhas*, a'r amcan mawr yr anelant ato yw difodiad hollol, nid cynnydd tragwyddol. Wrth gwrs, mae cynnydd yn eu crefydd hyd at ryw bwynt neilltuol, cynnydd hyd at fod yn sant, ac yno y daw i derfyn. 'Does dim goleu y tuhwnt i'r sant. A pha beth yw dyben eu cynnydd? Dim ond moddion iddynt i gael eu difodi, moddion marwolaeth a dyddimiant hollol. Yn awr cyferbyniwch hyn â Christionogaeth, hyny yw, a'r grefydd sydd yn ffynnonell ac yn yspryd ein meddyld lrych o ryddid, ac wedi bod felly am y 19 canrif diweddaf. Cristionogaeth yw theistiaeth yn y lle

cyntaf, hyny yw, mae ganddi Dduw, ac ni addola ond un Duw. Mae yn undduwiaeth. Ond nid yw yn theistiaeth yn unig, oblegyd mae theistiaid pur i'w cael heddyw a ymwrthodant a phob cyssylltiad â Christionogaeth, y rhai a gredant mewn Duw, a dyna i gyd. Nid oes alwad arnynt i'w addoli, oblegyd 'dyw eu duw fawr amgenach na chasgliad athronyddol y daethant iddo â'u pen. Ond 'dyw athroniaeth erioed etto wedi achub enaid, ond mae Cristionogaeth mewn rhagor nag un ffordd. Cristionogaeth, meddaf etto, yw theistiaeth; ond y mae yn fath arbenig o theistiaeth, ac i mi, y ffurf uwchaf a goraf o theistiaeth, am y rheswm hwn, fod bywyd yn ymddybynu ar ba fath dduw yr ydych yn addoli. Ymddybyna bywyd ar yr anian a welwn ni yn ein Duw. Os ydym ni yn theistiaid pur, yna nid oes eisieu i ni ond credu fod gallu y tuhwnt i'r cyfan yn creu'r cyfan, gallwn fod yn ddifater o barthed i'w gymmeriad, a gwna hyny ein bywydau ninau yn oer, yn galed, ac yn ddifater yn yr un modd. Ond os ydym yn theistiaid Cristionogol, hyny yw, os ydym yn dal y theistiaeth a ddaliai'r Iesu, yna yr ydym yn credu rhywfaint yn rhagor. Credwn nid yn unig fod Duw i'w gael, ond credwn fod ein Duw yn Dduw o gariad, ac yn Dad dynolryw. Arweinia'r gred hon ni gam yn mhellach, a chredwn, gan fod Duw yn Dad cariadlawn, na all bywyd, yr hwn sydd yn ddawn Duw, ddim bod yn felldith, ond yn fendith; fod ei holl boenau a'i ddyoddefiadau yn angylion mewn *disguise*; na wnai Duw o gariad byth gam na niwed i'w greaduriaid. Chwi welwch, gan hyny, fod ein syniad am fywyd yn ymddybynu ar ein theistiaeth, ar ba olwg a gymmerwn ni ar Dduw, ac fod yr olwg mai da ac nid drwg yw bywyd, mai bendith yw ac nid melldith, mai nefoedd yw ac nid uffern, yn gwneyd gwahaniaeth mawr yn 'stad ein hysprydoedd, ac yn agwedd ein heneidiau. Mae yr olwg hon fod bywyd yn dyfod oddiwrth Dduw cariadus yn ein helpu i wneyd y goreu o fywyd, ydyw, ac yn codi oddiar yr enaid yr hyn a fyddai, oni bai hyny, yn gaddug, yn anobaith tragwyddol. Mae theistiaeth Gristionogol wedi sirioli llawer enaid trallodedig. Y mae nid yn unig ein syniad ni am fywyd yn tarddu o'n theistiaeth arbenig, o'n cred mewn Tad cariadus, ond mae ein syniad ni am y natur ddynol, hefyd, yn tarddu o'r un ffynonell. Am mai Duw yw tad holl wyr a gwragedd, ac am ei fod yn eu caru i gyd â'r un cariad, y mae Efe yn gosod pawb ar yr un safle—mae pawb o gyffelyb bwys gerbron Duw. Mae pob enaid o werth anfeidrol yn ngolwg ei Greawdwr, a dylai pob enaid, gan hyny, gael ei garu a'i drin gydag anrhydedd a pharch, os nid er ei fwyn ei hun, er mwyn ein Tad cyffredinol. Dylai enaid pob dyn, dynes, a phlentyn, fod yn bwnc ein gofal. Mae gan bob enaid unigolrwydd o eiddo ei hun yn uniongyrchol oddiwrth Dduw sydd yn dadlenu rhyw ochr newydd o anian ei Awdwr, ac mae ganddo ryw waith neillduol yn y byd i'w gyflawnu i'w Dduw a'i Dad. Rhaid i bob enaid weithio gwaith ei Dad. Mae gan bob enaid bersonoliaeth o'i eiddo ei hun i dyfu, ac i dyfu hyd ganol dydd, i wneyd dynion perffaith megys ag y mae Duw yn berffaith. Rhydd theistiaeth Cristionogol obaith i ni hefyd y gall yr enaid dyfu, ei fod yn addas i ddadblygiad sydd bron yn dragwyddol,

y gall ef ddyfod yn berffaith. Ai nid yw y gobaith anogaethol hwn yn gosod ymddiried a phenderfyniad yn nghalon dyn? Ai nid yw wrth wraidd pob cynnydd y gred hon, yr argyhoeddiad hwn sydd gan ddyn am dano'i hun?

Cymharwch y cenedloedd nad ydynt yn Gristionogol â'r rhai sydd, a pha rai sydd wedi gwneyd y cynnydd mwyaf yn mhob cylch bywyd. Pa rai sy'n sefyll uwchaf mewn gwareiddiad. Mae cenedloedd ethnig yn berffaith lonydd o'u cymharu â'r rhai Cristionogol. A chreda y theistiaeth Gristionogol fod Duw rywfaint yn rhagor na Duw, ei fod Ef yn *Dad* cariadlawn. Mae gan y gred hon ddylanwad ar ein syniad am y natur ddynol. Yr ydym yn ymddiried mwy yn y natur ddynol, yn credu mwy am dani. A chredu fod pob enaid wedi dyfod oddiwrth Dduw, ni a gredwn, hefyd, fod gan bob dyn a dynes rywbeth godidog,—rhywbeth Dwyfol ynddynt, gallu cynnyddol ag sydd yn addas i flaenfynediad.

(I'w barhau).

LLYTYHYR BACH FY MAM.

Ar ysgwyddau amgylchiadau
Gyrwyd fi yn mhell o'm gwlad,
Collais wên fy anwyl ffrindiau,
Collais hefyd fwth fy nhad;
Wrth roi ffarwel i fy Nghymru,
Lle yn gyntaf roddais gam,
Angor yn fy nal i fyny
Oedd cawn lythyr bach fy mam.

Bysedd meinion byw adgofion
Sy'n cyfeirio dros y don,
At y fan lle bum i droion
Yn ymbrancio'n rhydd a llon;
Llwybrau'r ddol yn rhes a welaf,
Syllaf ar y goeden gam,
Swn yr aber fwyn a glywaf
Pan ddaw llythyr bach fy mam.

Daw y nos gan daenu dychryn,
Chwardda'r lloer fel am fy mhen,
Tra fy ngrudd yn wlyb gan ddeigryn
Hiraeth am fy Ngwalia Wen;
Nid oes swyn yn ngherddi'r awel,
Na charolau'r wig ddinam,
Seren wiw sy'n perfu'n dawel
Ydyw llythyr bach fy mam.

Pan ddaw'r haul o'i lys i drwsio
Gyda gwên amrantau'r dydd,
Eiddigeddu byddaf wrtho
Na chawn 'inau fyn'd yn rhydd ;
Teithia'r cwmmwl claerwyn heibio,
D'wedaf wrtho yn ddinam,
Fod fy nghalon yn llesmeirio
Am gael llythyr bach fy mam.

Henffych iti, nodyn bychan,
Cyssegredig wyt i mi,
Mae dy wedd a'th gwmni dyddan,
Fyth yn anwyl genyf fi ;
Llaw grynedig fu'n dy leinio,
Serch a'th seliodd yn ddinam,
Deigryn cariad fu'n eneinio
Werthfawr lythyr bach fy mam.

Cefncoed. CASWALLON.

GWRAIG A'I HENW DAMARIS.

ACTAU XVII. 34.

MR. GOLYGYDD,—Cyhoeddasoch yn rhifyn Mehefin erthygl ar hanes Mair Magdalen, ac y mae yn ddarllenadwy iawn ; felly, yr wyf am dreio fy llaw a chael allan a allaf finau ddim dywedyd rhywbeth o ddyddordeb am un o fenywod y Beibl. Mae llai o hanes genym am Damaris nag am Fair Magdalen, yr hyn sydd fe allai yn caniatau mwy o le i'r dychymyg. Drwg gynt, da wedi'n, felly y desgrifiwyd Mair Magdalen, onid e ? Da gynt, gwell wedi'n ; felly y dychymygaf fi y wraig a'i henw Damaris. Brith fe allai yw llawer o ddychweledigion heddyw. Yr oedd mwy o sicrwydd am fod mwy o berygl mewn cyssylltiad â dychweledigion yr hen amser. Onid yw y llinellau hyn yn gyfryw y gellir eu cyfleu at Damaris : " Caru beunydd, gwenu'n hyfryd ; canu, chwerthin, byth yn surllyd ; glan a diwyd, sobr, difrifol ; i foddio'i gwr yn wir egniol ; coeth a moesgar a charedig, ac o feddwl gwych puredig ; mam grefyddol, priod wiw, yn caru dyn, yn caru Duw ; tangnefeddus a digwyn, isel, amyneddgar, mwyn ; yn ofni pechod, caru'r nef, yn ceisio'n daer ei wyneb Ef ; yn mhob gair yn rhydd a siriol, yn mhob gweithred yn rhinweddol. Nid caethferch hi, nid morwyn chwaith, ond ffrynd urddasol ar y daith."

Ac etto, nid allwn ni lai na chyffesu y byddem yn falch petai awdwr yr Actau wedi rhoddi i ni fwy o hyspysrwydd am rai o'r personau a grybwyllir ganddo. Carem ychydig yn ychwaneg, er enghraifft, am

Cornelius, wr crefyddol; am Lydia, yr hon y cafodd yr Arglwydd agoriad i'w chalon; am Dorcas, a gredai mai nid "bratiau ladron" i gyd oedd "gweithredoedd da;" ac yn olaf, er nid yn lleiaf, am y wraig a'i henw Damaris. Ond waeth i ni garu'n y cyfeiriad yma fwy na pheidio, gan na wnawn ni ond "caru'n ofer" tra yma ar y llawr. Daw etto ddydd pan yr eglurheir y dirgelion hyn oll; dydd y deuwn ni wyneb yn wyneb a'r rhai hyn, rhai y mae eu henwau'n ysgrifenedig yn Llyfr y Bywyd. Yn y cyfamser, gadawer i ni fod yn ddiolchgar fod cymmaint wedi ei ysgrifenu er ein haddysg, a chynifer o batrymau dysglaer o ragoriaethau dynol wedi eu gosod o'n blaen er esiampl ac er annogaeth ini. Rhoddir digon ger ein bron er arweiniad a chysur—cwmwl mawr o dystion o'n hamgylch, ac y mae eu tystiolaeth o'r gwerth mwyaf. Dyben awdwr llyfr yr Actau oedd rhoi hanes byr ac etto cynwysfawr o gynydd boreu yr Efengyl, ac yn hyny ni ellir llai na chyfaddef iddo fod yn llwyddiannus iawn. Mae ei fyrdra weithiau yn hynod awgrymiadol, llinell o'i ysgrifell, gair weithiau, yn ddigonol i'w bwrpas. Ac felly, pan y mae braidd ond enwi y wraig Damaris—er nad oes genym ddim arall yn ei chylch—dim am ei sefyllfa mewn cymdeithas na'i dull o fyw, na'i chyssylltiadau, nac hyd y nod am ei character moesol, etto mae genym rywbeth yn awgrymiadol o'i bywyd blaenorol, tra y gallwn fod yn sicr na enwasid mo honi oni bai ei bod o nifer y rhai a gedwid mewn coffadwriaeth barchus ac anrhydeddus.

Saif enw Damaris yn gyssylltiedig ag eiddo Dionysius yr Areopagiad, a thebyg ei fod ef yn cael cryn sylw yn Athen; a chasglwn felly, ei bod hithau wedi ei geni mewn sefyllfa barchus; ei bod o darddiad cenedlig; oblegid, pe Iuddewes fuasai, tebyg y sylwasid ar y ffaith; ei bod o feddwl ystyriol a myfyrgar, a bod ei chalon yn iawn ger bron Duw. Rhaid i ni gasglu hefyd nad oedd hi ddim yn foddlon ar y grefydd boblogaidd; yn flin oherwydd yr ofergoeliaeth, a'r syniadau a'r ymarferion aflan oeddynt mor gyffredin—yn awyddus am y gwirionedd, ac yn ceisio yn hyderus am dano—yn dyheu fel y brefa'r hydd am yr afonydd dyfroedd, am yr heddwch, nad oedd y byd, fel y gwyddai trwy brofiad trist, yn alluog i'w sicrhau iddi.

Dywedir wrthym am Athen, ei bod wedi llwyr ymroddi i eilunaddoliaeth. Yr oedd temlau a delwau mor lluosog yno, fel y dywedid ei bod yn hawddach dyfod o hyd i dduw nag i ddyn yno. Ac eto yn Athen, yr oedd anffyddiaeth addefedig o'r mwyaf digywilydd—daearol, cnawdol, cythreulig—yn nodweddu y rhan fwyaf o'r philosophi a elwid felly. Yr oedd cred mewn Rhagluniaeth oruwchlywodraethol yn cael ei watwar megys breuddwyd, a bywyd dyfodol yn bwnc a wawdid yn y modd mwyaf dideimlad. Ac eto yr oedd y dynion hyn, a ddirmygent felly, yn mysg y blaenaf i ymroddi i arferion eilunaddolgar yr oes, gan gymmeryd yr arwyddair i feddwl gyda'r doeth a gweithredu gyda'r werin bobl. Mynychent y temlau, arogldarthent yr allorau, ac anfynych y gellid eu gyru yn fwy cynddeiriog na thrwy fod rhywun yn codi i fyny i oleuo meddyliau'r bobl, a'u harwain i wybodaeth o bethau gwell. Ar Fryn Mawrth (yr Areopagus), craig

nodedig yn ngolwg y ddinas, y safai Paul gynt, pan y llefarai am y "Duw nid adwaenir," yr hwn a addolid gan rai o'r boblogaeth, er mewn anwybodaeth lwyr o'i briodoleddau a'i garacter; ac yma tra yn gwrando ar eiriau gwresog Paul, y trywanwyd calon Damaris, y cyffyrddwyd ei gwefusau â golosg byw oddiar yr allor ddwyfol, y purwyd ac y goleuwyd ei meddwl, ac y gollyngwyd yn rhydd yr enaid oedd wedi bod yn gaeth hyd yma. Yr oedd ffydd yn awr wedi cymmeryd lle anobaith, prydferthwch wedi cymmeryd lle lludw; yr oedd wedi dyfod i adnabyddiaeth llawen o'r Tad goreu, a dyddiau ei galar wedi eu terfynu.

Yr oedd y gwragedd yma y darllenwn am danynt yn y Testament Newydd yn gweithio'n ardderchog gyda'r achos da ar y cyfan, yn anadnabyddus y naill i'r llall, yr oeddynt yn un mewn calon, wedi eu bedyddio i'r un yspryd; ac er nad oedd Damaris ddim gyda'r ychydig ffyddloniaid hyny oeddynt olaf wrth y groes a chyntaf wrth y bedd, eto caffai llawenydd y rhai hyny fath o adsain yn ei mynwes, ac yr oedd yn foddlon, gyda hwy, i garu, i weithio, ac i ddyoddef dros eu Harglwydd cyffredin. Ni allai Damaris ar y cyntaf, sylweddoli, yr holl aberth, yr oedd ei phroffes newydd yn ei ofyn oddiwrthi; ond ni wyddai chwaith yr holl dda oedd gan yr efengyl yn stor iddi—ac i'w rhywogaeth. Yn ei dydd—er fod menywod yn rhydd i fyned a dyfod mewn cymdeithas—eto gwnaent hyny gyda'r teimlad o'u hisraddoldeb. Yn anfynych y llawenhaent y bwrdd teuluaidd, tra yr oeddynt i raddau mawr yn cael eu cau allan oddi wrth alwedigaethau a chyfrinach bywyd cymdeithasol. Tebyg fod gan Damaris ei chaethion, gan mae dyna oedd cyflwr cyffredin miloedd yr adeg hono; ond yn awr, wedi ei haddysgu nad oedd yn Iesu, na chaeth na rhydd; os na roddodd iddynt eu rhyddid, rhoddai yr hyn oedd gyfiawn a chyfartal. Hi gofiai eu bod oll yn rhyddion yn ngolwg y Tad nefol. Mewn menyw fel Damaris, pur ei chalon, union ei meddwl, gwelwn allu Cristionogaeth—yr hyn a wna i goethi, i buro, ac i ddyrchafu. Eisteddai gwragedd wrth draed yr Iesu, ac yr oedd Iesu yn eu dyrchafu; dychwelai gaethferch Seion o'r llwch i fod yn gyfartal, yn gydymaith, ac yn wir gynorthwy i ddyn. Damaris, fel yr ymddengys, oedd blaenffrwyth dychweledigion y byd cenedlig. Mae tyrfa nas gellir ei rhifo wedi canlyn ei hesampl dysglaer—esampl na chollir mo honi tra pharhao'r byd. T. B.

TAITH O DONYPANDY I CREWE.

Mr. Gol.,—Gobeithiaf y rhydd yr hyn a ganlyn ychydig wybodaeth i'r amaethwyr Cymreig hyny sydd heb fod yn Crewe, am y wlad a orwedda rhyngom â'r lle hwnw.

Aethum yn gyntaf i Pontypool Road. Tir anwastad a garw iawn oedd o Fynwent y Crynwyr i Bontypwl, fel eiddo Cwm y Rhondda.

Yr oedd golwg hardd ar bont Crumlin yn rhychwantu'r cwm islaw, a gwelwn ddelw dyn arni. Mawr y cyfnewidiad sydd ar y wlad o Bontypwl i Henffordd! Mae'r wlad yn awr yn harddach nâ dim a welais erioed. Mae y Sais yn byw mewn llawer mwy o *style* nâ'r Cymro. Mae ofn ar y Cymro ddangos ei hun uwchlaw'r pridd a'r baw. Yn wir, mae yn hyfrydwch gweled mor brydferth yr ymddengys y tir y ffordd hon. Rhaid dweyd fod amaethwyr da yma: mae'r tir yn brawf o hyny. O Henffordd i'r Amwythig hefyd mae gwlad dda odiaeth, yn llawn o fwyd anifeiliaid yn awr. Mae tynelli o afalau i'w gweled yn mhobman, a'r amaethwyr yn brysur gyda'r pytatws, o'r rhai nid ymddengys i mi fod yma ryw gnwd mawr. Mae yn amlwg fod yma ffermwyr mawr iawn: cyfrifaf gynnifer â 40 o wartheg glân yn yr un cae. Mae yr Amwythig yn dref fawr yn nghanol rhanbarth amaethyddol, a'r olwg arni yn benafol. Nis gwn ar beth yr ymddybyna y trigolion am ei bywioliaeth. Daethum i fewn i Crewe am ugain munyd i ddau yn y prydnawn. Tref ddystaw a glân yw Crewe, a 27,000 o drigolion ynddi. Yma y gwneir holl waith Cwmni Cledrffordd y London & North Western, yr hyn a rydd waith i 10,000 o drigolion y dref. Mae'r dref wedi ei hadeiladu i gyd â phriddfeini, a'r orsaf gyda'r un fwyaf a welais I erioed; ac wrth weled y cerbydresi yn myned i bob cyfeiriad o honi, synaf fod dyn wedi dyfod mor fedrus! Braidd na ddywed dyn bach ei feddwl fod dyn yn hollalluog ac yn hollwybodol. Yn ol Syr John Lubbock, bu adeg pan yr oedd dyn yn rhy fach ei ddawn i gynneu tân i goginio ei fwyd, ac yn rhedeg yn noeth gyda chreaduriaid ereill; ond mae dyn wedi ymddadblygu yn ddirfawr er yr adeg hono; a pha beth a fydd os yw i gynnyddu am dragwyddoldeb? Pa ryfedd fod y sêr a'r planedau yn yr eangder yn gallu myned mor gyflym heibio eu gilydd a chroesi llwybrau eu gilydd mor ddyogel pan fo Duw Hollalluog a Hollwybodol yn eu gwylio bob munyd awr? Gellid meddwl weithiau mai un bach iawn yw Duw wrth glywed ambell hen frawd duwiol ar ei liniau yn ei *gommandio*. Dywedodd un o ddiaconiaid y Methodistiaid yn Nhrealaw wrthyf unwaith nad oedd genyf fi hawl i fyned i dy cwrdd y Methodistiaid o gwbl, am nad oeddwn yn credu yr un modd ag ef am waed yr Iesu. Barned y darllenydd pa fath Dduw oedd gan y diacon hwn, ac efe a wel nad yw y cyfryw ddyn wedi cynnyddu ond ychydig er amser John Calvin. Gwawried y boreu pan na fo neb mor gul ei feddwl, a phan fyddo pob cred ond cred yn nghariad pur yr Iesu wedi diflanu. Yr oedd genyf bedair milldir i gerdded yn ol (o herwydd nad oedd y gerbydres yn aros yno) i bentref mawr o'r enw Nantwich, yn cynnwys rhyw 7,000 o drigolion. Mae yma lawer iawn o deilwriaid a theiliwresi, oblegyd dyna brif alwedigaeth y trigolion, ac y mae dillad parod yn rhad iawn yma. Mae ffair gaws fawr yma yn y mis hwn, a gwobrwyir yr amaethwyr am y caws goreu. Caws gwerth galw caws arno ydyw hefyd—dim ymenyn yn cael ei dynu o hono, a'r prisoedd o 50s. i 80s. y 121 pwys. Mae y wobr flaenaf yn £12, yr ail yn £8, a'r drydedd yn £4. Hefyd, mae yma ychydig ymenyn heb ddim halen ynddo, tebyg i'r hyn elwir yn ymenyn gweren yn y wlad y magwyd fi ynddi, a rhoddir tair gwobr (£3, £2, a

£1,) am y goreuon. Peth arall sydd yma yw ffynnon ddwfr halit, a thy hardd a glân uwch ei phen, cyfaddas iawn i ddynion ymfaddo mewn dwfr oer neu dwym. Mae y dwfr hallt hwn yn dda at wella y gwynegon, a llawer o ymwelwyr wedi derbyn gwellhad. Wrth ddychwelyd yr oeddwn yn gorfod aros am ddwy awr yn yr Amwythig, lle yr oedd amgueddfa ardderchog a henafol—yr adeilad wedi ei godi yn amser Iorwerth VI., yn 1552. Yr oedd yn yr amgueddfa lawer o greaduriaid ac ymlusgiaid ag a fuasent unwaith yn greaduriaid byw, ond sydd heddyw yn gerryg celyd. Pa faint o amser sydd yn angenrheidiol i gyfnewid cnawd yn garreg, nis gwn. Cychwynais adref o'r lle hwn gyda'r Bristol Express, ac yr wyf yn meddwl mai hwn oedd y gerbydres gyflymaf y bum ynddi erioed.

J.J., T.

CERDDORIAETH.

GAN ALAW BRYCHEINIOG.

Syniad arall am drawsgyweiriad ydyw, nas gellir symmud ond i chwech o golofnau bob tu i'r brif; am y rheswm fod yr un sain yn cael ei defnyddio ar ol bod o gylch i'r colofnau. Mae fel y ddaear, meddai ambell i gerddor, ond ei theithio ar ei hunion y bydd yn sicr o ddyfod yn ol i'r man y cychwynodd gyntaf. Nis gwn am hyn, ond gwn nad yw y syniad yn gywir parthed cerddoriaeth. Er enghraifft, mae pob trawsgyweiriad yn cael ei wneyd neu ei achosi drwy leddfnodau neu lonnodau: y llon-nod ar y llaw ddehau a'r lleddfnod ar y llaw chwith, un drwy y 4ydd a'r llall drwy y 5ed. Cymmerer y llon-nodau yn gyntaf, o C i G, o G i D, o D i A, o A i E, o E i B, o B i F, ac o F i C. Wel ti yn ol bellach wedi teithio'r byd i gyd, ac yn yr un fan. Treiwn yr ochr arall etto, sef ar ein llaw chwith, o C i F, o F i B, o B i E, o E i A, o A i D, o D i G, o G i C. Dyna ti wedi cerdded y byd ddwy waith drosodd, ac etto wedi cyrhaedd cartref lle y cychwynaist. Nac ydwyf. Wyt; gyda C y darfu i ti gychwyn, a chyda C y darfu i ti derfynu. Ie, ond nid yr un C yw hon a'r llall. Ffordd yr wyt ti yn dweyd hyny? Fel hyn: rhaid cael pumed perffaith o'r naill a'r llall ar y llaw ddehau, a phedwerydd perffaith ar y llaw chwith; felly nid yw'r pumed o'r B i'r F ar y llaw ddehau ond pumed anmherffaith. Mae'n gynnwysedig o ddwy don a dwy hanner ton, tra mae pumed perffaith yn gynnwysedig o dair ton ac un hanner ton; felly bydd yn rhaid lloni'r F a'i gwneyd yn F *sharp*, yn lle F naturiol, sef Fe yn lle F; o gaulyniad, bydd y C wreiddiol bellach yn anmherffaith fel yr F, a rhaid ei chodi hithau hanner ton, a'i galw yn C *sharp*, felly hanner ton yn uwch na'r cyntaf. Awn drwy y lleddfnodau yr un fath, Mae

o G *flat* i C naturiol fwy na phedwerydd perffaith. Mae pedwerydd yma'n gyfansoddedig o dair ton gyfan, tra nad yw y pedwerydd perffaith ond dwy don a hanner ton ; felly'n rhy uchel. I gyfarfod â hyn, rhaid gosod lleddfnod G, a'i galw yn C leddf. Ond i ni gymharu fel hyn yn un man a'r ddau eithafnod hyn, sef C *sharp* a C *flat*, mae yna dipyn o ffordd rhwng y ddau deithiwr, sef yr un ar y chwith a'r un ar y dde, er eu bod wedi cychwyn oddiar yr un smotyn yn union. Felly gellir cychwyn gyda C *sharp* yr ail waith, a symmud i G *sharp*, D *sharp*, &c., nes yn y diwedd gyrhaedd pen y chwech colofn, ac felly bydd hwn yn C *double sharp*. D, ynte. Nage, nid D ychwaith, ond C *double sharp*. Wel yr un fath yn union yw C *double sharp* a D. Nage, mae yna wahaniaeth o radd : mae C *double sharp* yn ddeg o raddau yn uwch na'r C naturiol, tra nad yw y don fwyaf, neu D naturiol, ond naw ; felly un radd o wahaniaeth. Mae trawsgyweiriad yn beth syml a hawdd iawn i'w ddeall, gan fod gynllun neu safon iddo ag y gellir ei ddylyn, fel yr edafedd yn yr hosan ; a gellir nid yn unig symmud neu newid yr alaw a'r oll o'r cyfansoddiad, sef ei tharaw pumed yn uwch ond un radd, dwy radd, tair radd, &c. Yr unig wybodaeth fydd gwybod pa sawl *sharp* a *flat* fydd yn ofynol i wneyd hyny. Pa'm chwech colofn, nis gwn. Nid natur fawr gyfarwyddodd neb i chwech yn fwy na deuddeg, deunaw, hanner cant, &c. Nid ydym o'r un farn yn union a'n cyfeillion cerddorol yn mhob pwynt o gerddoriaeth—yn mhell o fod felly ar lawer pwynt. Gwir fod yn rhaid dysgu y mân reolau a berthyn i gerddoriaeth, fel y saer coed neu'r gof gyda'u hoffer ; ond y golled fawr yw hon, fod y cerddor yn cymmeryd natur fawr i ddangos y mân reolau, yn lle bod y mân reolau yn dangos natur fawr &c. Parotoi y garreg i'r adeilad y mae y saer maen gyda'i offer, ac nid parotoi yr adeilad at yr offer. Yr un fath lawer iawn o gerddorion, maent yn rhoi ffurf i enaid, yn lle bod yr enaid yn rhoddi ffurf iddo ei hun ; ac mae'r gwahaniaeth yma yn ofnadwy fawr—mor fawr ag yw natur a chelfyddyd. Mae yma adwy yn gorwedd rhwng natur a chelfyddyd pan fyddo celfyddyd ar ei heithaf. Pan mae yn sefyll ar flaenau ei thraed, ac yn estyn ar ei heithaf i geisio cyrhaedd gwadn troed natur, mae'n mhell o fod yn alluog i allu gwneyd hyny. Braidd na ddywedwn heb bechu fod yna gymmaint o wahaniaeth rhwng celfyddyd a natur ag sydd rhwng Duw a dyn. Dyma'r achos o lawer iawn o gyfansoddiadau mor ddiwerth, er eu bod wedi eu hadeiladu yn dra chelfyddydol, Cyrff meirwon ydynt heb eneidiau o'u mewn. Yn awr, pwynt mawr rheol yw rhoddi amlygrwydd o'r anweledig. Nid y llythyrenau mae y bardd neu'r ysgrifenydd yn weled gyntaf ; na, ond y meddwl gyfaddasa eiriau i bortreadu'r meddwl, a chwilia am lythyrenau i gyfansoddi geiriau. Nid oes, ychwaith, un bardd na chyfansoddwr o un math, ond y cerddor, yn ddigon anwybodus, balch, ac anonest, i gredu hyn. Cawn rai cerddorion yn barod i ddweyd mai eu heiddo hwy yw pob peth o'r cyfansoddiad, tra gellir dweyd nad oes yno ddim ond y trefnu yn eiddo iddynt, a'u trefnu ar lawer ystyr yn felldith i'r cyfansoddiad. Felly, ein cynghor ni yn hyn o beth, fel yn mhob peth arall, yw gwrando ar yr yspryd hwnw sydd yn siarad â ni, a'i wneyd

yn hyspys i'r byd mor debyg ag y medrom, a pheidio dweyd dim os na fydd genym rywbeth i'w ddweyd. Fel hyn y gwneir gyda'r gangen lawn hon, sydd mor llawn o liwiau yn ei chol ag sydd gan natur fawr yn ei mynwes. Nid yw natur byth yn edrych am y coch cyn dangos y gwyrdd, y melyn, &c.; na, mae hi yn cymmeryd yr hyn sydd angenrheidiol arni ar y pryd. 'Does dim rheol ganddi hi, ac nid yw yn rhwym i reol. Yr un fath pawb a phobpeth. Os bydd yr yspryd yn gofyn am newid y traw i ryw dair o raddau ac nid naw-ar-hugain, gosodir y traw felly; os mwy neu lai, dim gwahaniaeth—dyma'r ffordd i lwyddiant. Dywedwn etto, fod cerddoriaeth yn hynach na rheolau, ac mai iddi hi y mae rheolau yn rhwym, ac nid cerddoriaeth i'r mân reolau. Nid yw y mân-drawsgyweiriadau hyn ond gwahanol liwiau—pob un yn rhoddi lliw newydd i'r cyfansoddiad. Dadleua rhai mai pa fwyaf y lliwiau, goreu oll y gerddoriaeth; ond nid yw amrywiaeth lliwiau bob amser yn unol â chyfansoddiad da; onide gallem daflu ein holl alawon Cymreig i'r cysgod, a rhoddi lle i rai a mwy o amrywiaeth lliw iddynt; wedi'r cyfan byddai'r genedl Gymreig yn hollol farw gerbron y byd. Byddai "Ar hyd y nos" felly, gan nad oes ond un lliw ac heb un trawsgyweiriad ynddi, yn wael fel cyfansoddiad. "Ymdaith gwyr Harlech" yn perthyn i'r un dosparth, felly yn gyhuddedig ac yn wrthodedig. "Morfa Rhuddlan" yr un fel a degau o rai ereill; etto'n fyw yn mynwesau miloedd ar filoedd o Gymry ar hyd a lled y byd, ac nid Cymru yn unig, ond pob cenedl arall. Cof genym weled y Sais un natur yn dawnsio cyn hyn ar un o brif orsafau y deyrnas hon yn clywed "Ymdaith Gwyr Harlech" yn cael ei chwareu gan yr offer bres. Clywais gerddor o radd uchel yn dweyd y dydd o'r blaen y dylasai fod dau newidiad, o leiaf yn mhob ton, bydded hi mor fyred a b'ai modd, hyny yw i'r laf *flat* a'r laf *sharp*. Yr oeddwn yn teimlo ar y pryd mai un o fechgyn rhoddi ffurf i enaid ydoedd, ac nid cymhwyso'r bach at y mawr. Mae'r alawon syml heb un trawsgyweiriad yn dal yn eu blas o hyd, tra mae eu halawon lliwiedig hwy yn methu cael un blas arnynt.

Y fantais sydd gan drawsgyweiriad pan y gofynir ef ar beidio trawsgyweirio, yw ei fod yn gallu rhoddi gwell melodedd, neu efelychiad o'r melodedd hwnw mewn traw arall, &c. Cymmerwn y 5ed, er enghraifft. Dywedwch ein bod am roddi efelychiad cywir o'r seiniau canlynol, sef d r m d t_1 d r heb drawsgyweiriad, safent fel y canlyn, bumed yn uwch, sef s l t s f s l, byddai yna amryw yn annghywir, ac heb fod yn efelychiad cywir: bydd y l a'r r yn gwananiaethu y f a'r t_1, ac ni fyddai chwaith gosod fe yn lle f yn rhoddi cywirdeb iddi. Yr unig ffordd y byddai'n gywir fyddai gosod d yn lle s, fel hyn: sd r m, &c., yna byddai'n berffaith yr un fath a'r gwreiddiol bumed yn uwch. Ond y ddadl yw hon, A ydyw yn rhaid cael cyfnewidiad unwaith, dwy waith, tair gwaith, yn mhob darn? Canwyd amryw donau fyddant ar gael a chadw tra'r ddaear mewn bod heb un trawsgyweiriad iddynt, na'r sawl a'u cyfansoddodd yn gwybod dim am drawsgyweiriad ar unrhyw law. Yn ein nesaf cawn sylwi ar gynghanedd.

(I'w barhau.)

ER PARCHUS GOF

Am Mr. Thomas Davies, 4, *Watercourse Street, Dowlais, yr hwn a fu farw Mehefin* 7, 1891, *yn* 47 *oed.*

Anwyl gyfaill ymadawodd â'r daearol hyn o fyd,
Ond ei hyfryd goffadwriaeth aros wna'n ein plith o hyd;
Colled drom oedd colli cyfaill didwyll, o amcanion pur,
Un fu'n addurn i gymdeithas heddyw sydd yn ddwfn ei chur.

Oes, mae galar trist, dirdeimlol, pan gwna farw "dynion da,"
Ond adgof am eu glân rinweddau rhyw *sancteiddio*'r galar wna;
Felly'n union, pan gollasom wrthddrych hoff y geiriau hyn,
Cawsom boen, ond cawsom bleser wrth adgofio'i fywyd gwyn.

Dyn a'i galon fyth yn curo dros hapusrwydd ei gyd-ddyn;
Yr oedd son am ei haelfrydedd fel diareb ar bob min;
Collai 'i fywyd cyn y pallai wneyd haelionus weithred dderch;
Dyna'r prawf o fawredd enaid—dyna'r dyn sy'n ennill serch.

Cywir Gristion yn mhob ystyr, diymhongar, tirion, mwyn;
Parchus aelod yn Mryn Seion, a'i hedd-eiriau'n gwasgar swyn;
Selog oedd yn mhob rhyw fudiad wnai ddyrchafu rhin a moes;
Bu yn ffyddlon noddwr dirwest flwyddi cyn terfynu 'i oes.

Wrth fyn'd à'i farwol ran i oer briddellau'r bedd,
Fe ddarfu llawer deigryn i wlychu llawer gwedd;
Nis gall un grefydd fyth nacâu'r dystiolaeth hon
O wendid i'n dynoliaeth, os galar leinw 'i fron.

Fe ddarfu'r Iesu mad, y Pen-Tywysog hedd,
Er iddo ei orchfygu, i wylo uwch y bedd!
Ac wylo a wnaeth llu uwch marwol ran ac arch
Y cyfaill Thomas Davies nas rhwda bedd ei barch.

Dowlais. D. Ifor Davies.

NODYNAU GWASGAROG.

GELLIONEN, 1692—1892.

Yr wyf yn deall fod y flwyddyn nesaf yn ben dau-can'-mlynedd yr achos yn Gellionen, ac y mae yn dda genyf glywed fod yn mwriad rhai o'r gynulleidfa i beidio gadael i'r amgylchiad basio heb ei ddathlu mewn modd anrhydeddus. Y dathliad goreu fyddai capel newydd, a chyfarfodydd agoriadol blodeuog. Mae galw tost am gapel newydd,

ac ni cheir byth gyfleusdra mwy ffafriol. Felly hai ati, o ddifrif. Gosoded pob un ei ysgwydd wrth yr olwyn. Dylid hefyd sicrhau pob peth a roddai ddylanwad a nerth i'r mudiad, ac yn un peth dylid cael hanes yr achos a'i ffyddloniaid i'r ffrynt. Dylid casglu pob cywreinion, y Beiblau a'r llyfrau emynau fuont mewn arferiad; y llyfrau ydynt gyssylltiedig ag enwau'r gweinidogion; photos (neu wawl-luniau) o bob gweinidog, &c., ellir dyfod o hyd iddynt. Ceid felly *museum* o gryn ddyddordeb. T. C. U.

DYDD GWYL YR HOLL SAINT (TACHWEDD 1).

Pan ymdorodd Protestaniaeth yn rhydd oddiwrth Babyddiaeth yr oedd yn naturiol ei bod yn ymwrthod â rhai pethau a allent fod o les iddi; yr un wedd pan ymgododd Puritaniaeth, parodd i'w rhagfarn iddi wneuthur yn gyffelyb. Er enghraifft mae gan yr holl eglwysi pwysigaf, mewn rhif a dylanwad, megys Groeg, Rhufain, Lloegr, eu saint, eu pobl dduwiol, am y rhai y coffânt gyda pharch, ac ymddengys i mi fod anghydffurfwyr yn annoeth i anghofio eu saint. Oni fyddai yn naturiol ac er lles i ni gadw mewn cof arbenig ein dynion duwiol a da? Mae gan bob eglwys anghyffurfiol eu henwau cyssegredig. Dylai Undodiaid gofio am eu harwyr crefyddol, eu Priestley, Channing, Parker; ac ni byddai yn anhawdd i ni enwi Cymry fuont mor weithgar a hunan-ymwadol yn eu dydd a neb pwy bynag, a dylai eu coffadwriaeth gael ei gadw genym mewn perarogl. Q. Q.

CRAIG GWRTHEYRN.

(Buddugol yn nghyfarfod cystadleuol Llanfihangel-ar-arth Ebrill 16, 1891).

Henafol "Graig Gwrtheyrn,"
Mae'i hagwedd yn herfeiddiol;
Goroesi wnaeth y teyrn
Roes iddi enw bythol;
Mae ef a'i ormes erch
Yn medd y pell orphenol,
Tra hi, fel ieuanc ferch,
Yn dal yn gryf a nerthol.

Ei throed gusenir gan
Y "Teifi" lâs, ddolenog,
O'i hymyl dyrch i'r lan
Yn goed-dir serth, cerrygog,
Y graig i'w chroen sy'n noeth,
Fel cawr wrth ymladd gornest,
Ac o bob brwydr boeth,
Dianaf daw heb orchest.

Gwastadedd harddwych sydd
Ar ei huchelfawr goryn,
Ac arni, nos a dydd,
Yn awr cân heddwch emyn;
Yn lle swn rhyfel blin
Ceir clywed yr ehedydd,
Mewn cydgan gyda mun,
Heb ofid foreu Hafddydd.

O gwmpas "Craig Gwrtheyrn"
Mae bryniau mân a dolydd;
Coedfoel, fel uchel deyrn,
Dŷn sylw yr edrychydd;
Daw adeg pan y bydd
Pob bryn fel oen yn llamu;
Craig gadarn, ar y dydd,
Gaiff gwir ganlynwyr Iesu.

Dyffryn Cerdin. BEN DAVIES.

MR. GOL.,—Ca plant rhanau Cymreig Cymru eu dysgu i rammadegu y Saesneg yn ein hysgolion dyddiol gyda pherffaith ddiwahaniaeth, pa un a fydd eu bywyd dyfodol yn cael ei dreulio yn y rhanau hyny neu yn y rhanau Seisnig. Gallwn feddwl y dylai addysg pob plentyn gael ei chario yn y blaen yn y modd goreu er ei gynnorthwyo i fod yn aelod defnyddiol o'r ardal y trigianna ynddi, i fod o les iddo ei hun, ac o fendith i'w gyd-ddynion; ond pa faint o les, carwn wybod, ydyw dysgu yr iaith Saesneg mor drwyadl i'r bechgyn a'r genethod hyny sydd i dreulio eu bywyd yn ngorchwylion cyffredin bywyd mewn rhanau hollol Gymreig, lle na fydd ganddynt y nesaf peth i ddim o gyfle i ymarfer y Saesneg, canys Cymraeg ydyw iaith y capel, iaith yr aelwyd, a iaith masnach gan fwyaf. Oni fyddai gwybodaeth o'r Gymraeg yn llawer mwy o fendith ac o les i'r cyfryw rai gogyfer a'u gwneyd yn ddefnyddiol mewn bywyd? Dyma hwy wedi treulio o dair i chwe' blynedd o'u hamser i ddysgu Saesneg, a dim ond Saesneg, yn yr ysgol ddyddiol, a'r foment y bydd eu tymhor ysgol ar ben, cedwir hwy i lafurio y ddaear, i wau a nyddu, i wasanaethu yn y tai, i fod yn seiri a maswniaid, a hyny mewn ardaloedd hollol Gymreig, lle na siaredir Saesneg, ond yn nhai y mawrion a'r rhai a'u hefelychant. Ond pe buasai rhan o'u tymhor ysgol wedi cael ei dreulio i ddysgu Cymraeg, byddent yn llawer mwy hyddysg yn yr iaith a arferent holl ddyddiau eu bywyd; cawsent fwy o flas ar lyfrau Cymreig, ac yn neillduol buasent mewn gwell cyfleusdra i ddeall y Beibl Cymreig, prif Lyfr y Cymro, fel yr ysgrifenai modryb Twm Shon Catti ato wrth ei anrhegu â Beibl—

"Anrheg i ti o Lyfr y Llyfrau,
Myfyria ynddo hwyr a borau."

Ond gwna y ffaith fod addysg ddyddiol Cymru yn Saesneg, a dim ond Saesneg, eiryddiaeth y Cymro yn gyfyngedig iawn yn ei iaith ei hun. Gwyr ddigon o eiriau i siarad, eithr cyfyng iawn ydyw gwybodaeth cyffredinolion Cymry o'u hiaith. Rhaid dysgu y Saesneg yn yr ysgol ddyddiol, ond gyrir y Gymraeg allan oddiyno gyda dirmyg, ond pan ei harferir fel morwyn dwt i'r Saesneg. Gadewir dysgu y Gymraeg i ddamwain, i'r aelwyd, i'r Ysgol Sul, i'r wythnosolyn ar misolyn, eithr nid ydyw dylanwad yr holl bethau hyn yn gyfartal i'r ysgol ddyddiol. Beth ydyw awr yr Ysgol Sul yn Gymraeg gogyfer â phum awr ar ugain y Saesneg yn yr ysgol ddyddiol? Pa ryfedd fod ein plant yn colli eu Cymraeg? oblegyd dyna ydyw dylanwad yr addysg ddyddiol. Cyn y mae yn bossibl gweled y Gymraeg yn llewyrchus, rhaid fydd ei chael yn drwyadl i'r ysgol ddyddiol, ei chael yno fel iaith Cymru. Clywir pobl yn dywedyd fod llif y Saesneg yn goresgyn ein gwlad, a pha ryfedd, gan mai y Saesneg sydd yn yr ysgol ddyddiol, Saesneg yn y llys barn, Saesneg yn y bwrdd ysgol, Saesneg yn y cynghor sirol a threfol, Saesneg yn y papyrau dyddiol, Saesneg ar aelwydydd ein mawrion, ein cyfoethogion, ein hoffeiriaid a'n gweinidogion, ein doctoriaid a'n cyfreithwyr!! Onid yw yr Eglwys Sefydledig wedi bod am oesau yn ceisio difodi ein hiaith a'n cenedl? A chawsom ni y fraint o'u cynnal i wneyd hyny.

Yn wir, dylem gael y Gymraeg i'r ysgol ddyddiol er lles ein gwlad, er lles y rhai hyny a dreuliant eu bywyd yn yr iaith Gymraeg. Mae gorfodi y rhai hyn i ddysgu dim ond Saesneg yn greulondeb enbyd, yn anfantais fawr iddynt gogyfer a gwneyd eu rhan yn dda mewn bywyd, a buasai yn dda gan y rhai hyny ydynt wedi myned i fyw i blith y Saeson pe y cawsent eu gorfodi i ddysgu y Gymraeg yn drwyadl yn nyddiau eu mebyd a'u hieuenctid. Wrth gwrs, da ein bod wedi dysgu egwyddor y Saesneg yn yr ysgolion yn y rhanau Cymreig; ond nis gellir deall y Saesneg, fwy nag un iaith arall, heb fyw yn mhlith ei siaradwyr, eithr barnaf y buasai y plant Cymreig yn llawer o fanteiswyr o gael arfer iaith eu bywyd cyffredin yn yr ysgol, yn lle, fel y gwneir yn awr, ei chau allan yn hollol, a gosod iaith estronol yn unbenaethol ar orsedd yr ysgol. Gallai y ddwy iaith fod yn gynnorthwy i'w gilydd; gwna un ddysgu Saesneg pan êl i fyw i blith Saeson; ond ni wnant hwy, fel nyni, wadu eu hiaith er mwyn boddio yr estron pe na fyddai ond un, a hwythau yn llawer.

Credaf y dylai ysgolion dyddiol Cymru Gymreig yn enwedig ddysgu eu dysgeidiaeth yn yr iaith hono sydd yn arferedig yn yr ardaloedd hyny, a thebyg y buasai hyny yn llawer mwy o fendith; dysger ein hieuenctyd yn yr iaith sydd wedi bod yn iaith i ni am lu oesau y gorphenol.—Yr eiddoch,

Park Road, Pontypwl. D. Ff. Dafis.

Tachwedd 15, cynnaliwyd cyfarfod cenadol yn Jerusalem, capel y Bedyddwyr yn Nhonypandy, lle y darllenwyd tri phapyr—un ar Jamaica, un ar India a China, a'r llall ar "Yspryd Cenadol;" ac yn wir,

yr oeddynt yn bur dda, a phrofent fod llawer o waith wedi cael ei wneuthur o du y Bedyddwyr yn y lleoedd uchod. Yn awr mae arnynt eisieu cant o genadon a chan' mil o bunnau. Ac mae eisieu can' mil o bunnau hefyd yn Nghwm y Rhondda, er gwneuthur crefydd Crist yn hyfrydwch i'r Cristion. Mae yma dai cyrddau y gwn I fod beichiau o ddyled arnynt ag sydd yn rhy drymion iddynt eu dwyn lawer pryd. Hefyd, pa beth sydd yn y cwm hwn i geisio sobri'r meddwyn? Dim. Mae yn y cwm hwn heddyw tua chan' mil o drigolion, a miloedd o honynt heb un Beibl yn eu tai, ac nid wyf yn meddwl fod un o'r gweinidogion o'r gwahanol enwadau yn myned oddiamgylch i weled a oes yno Feibl neu beidio. Yr wyf fi yn edrych ar y Chineaid mewn gwell sefyllfa na'r meddwyn sydd yn y cwm hwn.

Hefyd, yr wyf yn meddwl, pe buasai crefydd Crist yn myned i wleddydd tramor heb enwadaeth, y buasai yn sicr o fod yn llawer gwell. Ni fedr crefydd byth fyned yn bur drwy lestr enwadaeth. Nid cyfundrefn yw crefydd Crist, ond cyfundrefn yw pob crefydd enwadol. Etto, credaf fod cenadon enwadol yn gwneuthur daioni mawr yn mhlith y paganiaid: y maent yn trin y tir ac yn ei drwsio, os nad ydynt yn hau efrau yn lle gwenith. Mae lle i ofni fod y gwahanol enwadau sydd yn myned i blith y paganiaid yn gosod mwy o bwys ar enwadaeth nac ar grefydd bur yr Iesu. Mae yn debyg fod ymdrech fawr o du pob enwad crefyddol i blanu ei gredo ei hun yn meddwl pob pagan, fel nas gall y pagan werthfawrogi crefydd: mae yn gweled crefyddwyr yn methu cytuno â'u gilydd. Cenadwr oedd yr Iesu wedi cael ei anfon oddiwrth Dduw i draethu'r genadwri fod Duw yn Dduw a Thad i bob un a'r sydd yn gwneuthur ei ewyllys ef, ac mae yn rhaid i bob cenadwr heddyw fod yn llestr glân a meddu yspryd Crist cyn y gall ei genadwri ef fod yn effeithiol.

J.J., T.

Mr. Gol., —Yn hanes y Cyfarfod Chwarterol diweddaf a gynnaliwyd yn Aberdar, dywed eich gohebydd mewn perthynas i'r gynnadledd, "Ceid mwy o lewyrch ac o hwyl ar y cyfarfod yma pe dangosai y gweinidogion fwy o barodrwydd ac ewyllysgarwch i godi a siarad." Yr wyf yn methu â dirnad fy hun pa lewyrch ellir ddysgwyl oddiwrth y cyfarfodydd hyn. Yr wyf wedi bod yn bresenol mewn nifer lluosog o honynt yn ystod y pum' mlynedd ar ugain diweddaf, ac nis gwn am un lles neillduol ag sydd wedi deilliaw oddiwrthynt; ac oddiwrth yr anfoddlonrwydd hwn o du y gweinidogion i gymmeryd rhan yn y cyfarfod crybwylledig, yr wyf yn barnu ei bod hwythau bellach yn teimlo yr un fath.

Beth yw tuedd y cynnadleddau hyn wedi ac yn bod ond rhoddi cyfleusdra, neu yn hytrach wahodd cyfleusdra i'r gweinidogion gecran â'u gilydd, a cheisio ennill goruchafiaeth y naill ar y llall, a phan y dygwydd i wr lleyg fod mor eofn â chymmeryd rhan yn y ddadl, mae yr amcan yn fynych yn cael ei golli yn yr awydd i'w ddisodli. Beth yw y canlyniadau? Y mae yr olygfa efallai yn rhoddi ychydig fwyniant,

ac o bossibl foddlonrwydd i'r bobl iawnffyddol a ddygwyddant fod yn bresenol, ond nis gall lai nâ chlwyfo teimladau y cyfryw ag y mae Undodiaeth yn anwyl ganddynt.

A all rhywun ddweyd fod araeth y Parch. John Davies (mae yr enw hwn yn fwy naturiol nag Alderman) ac ysgrif ymarferol y Parch. P. Moore wedi cael y sylw a hawliai eu teilyngdod? Os naddo, pa ddyben oedd gwastraffu amser i'w traddodi o gwbl? Mae agwedd Undodiaeth yn Nghymru heddyw yn profi i'r carn nad yw y cynnadleddau (y fath gamenwad) hyn erioed, neu o leiaf yn fy nghof I, wedi bod o un dyben er lledaenu yr achos Undodaidd yn Nghymru.

Pe buasai ysgrif Mr. Moore wedi cael ei darllen o flaen cyfarfod o weinidogion a chynnrychiolwyr o'r eglwysi Undodaidd yn y dosparth hwn wedi cyfarfod i ystyried sefyllfa yr eglwysi, gyda'r amcan o'i gwella, yna, buasai gobaith am i waith gael ei gyflawnu. Ond mewn cyfarfod agored i bawb, nid gwiw dysgwyl i un Undodwr nodi allan wendidau yn ein trefniadau crefyddol.

Nis gwn pwy sydd yn atebol am barhad y cyfarfodydd hyn, ond os ydynt i fod o un defnydd i'r enwad, mae yn llawn bryd cael diwygiad. Y mae llawer o achwyn ar y draul sydd yn disgyn ar ein gweinidogion wrth ddyfod i'r cyfarfodydd hyn, ac mae'r achwyniad yn gyfiawn. Yn mhellach, pan ystyriom ganlyniadau y Cyfarfodydd Chwarterol, yr ydym yn rhwym o ddweyd nad yw y canlyniadau yn gyfartal i'r draul.

Etto, ni fynwn er dim weled y cyfarfodydd hyn yn cael eu dyddimu, ond gresyn na ellir gwneyd gwelliant yn y modd y dygir hwy yn y blaen. Oefais ar ddeall fod Mr. James o Landyssul wedi addaw gosod cynllun newydd o flaen y Cyfarfod Chwarterol, gyda'r dyben o wneyd gwelliant yn y cyfeiriad hwn. Gobeithiaf nad yw Mr. James wedi rhoddi i fyny ei fwriad. Deallais hefyd fod rhyw siarad wedi bod yn y Cwmbach mewn perthynas i sefyllfa Undodiaeth yn Nghwm y Rhondda. Beth sydd wedi dyfod o'r mater hwn? A ddarfu iddo drengu yn y Cwmbach?

LLEYGWR.

"MARWNAD MR. DAVIES, CWMBEDW."

MR. GOL.,—Caniatewch i mi hyspysu "Q.Q." fod y farwnad y sonia am dani yn fy meddiant, ond nid Tau Gimel yw ei hawdwr, fel y prawf y *title page*, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Marwnad Er Coffadwriaeth am y Parch. Evan Davies, Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Kilgwyn, Caeronnen, a'r Cribyn; yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn y 12fed o Chwef. 1817, gwedi bod yn llafurus yn ngwaith y weinidogaeth am 40 mlynedd, yn 66 o oed. Ac am y Parch. G. Griffiths, Gynt Gweinidog yr Efengyl yn Llechryd, am 30 mlynedd; yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn Ionawr 31ain, 1818, yn 57 o oed. Gan D. Davies, Kilgwyn. Caerfyrddin; Argraffwyd gan J. Evans, yn Heol y Farchnad Isaf. 1818."

Ar ei diwedd ceir a ganlyn :—

"Maes-y-Pwll, Ebrill 10fed, 1818."

Ymddengys i mi mai "Bet" oedd priod Mr. Davies, ac mai "Ffanny" ynte oedd priod Mr. Griffiths, a mam Tau Gimel. Mae y farwnad, yr hon sydd o'r un nodwedd ag ereill yr amser hwnw, yn cynnwys 30 pennill 8 llinell. Mae y 27 i gyd fel hyn :—

"Bet a Ffanny sy'n galaru,
Ac och'neidio maent o hyd,
Nid oes achos in' ryfeddu,
Wylo mae'r eglwysi gyd;
Beth dâl cwyno, beth dâl wylo?
Ni chewch wel'd eu hwyneb mwy,
Ni chânt byth ddychwelyd atoch,
Ond chwychwi ewch atynt hwy."

Gan obeithio y rhydd hyn foddlonrwydd i "Q.Q.," y gophwysaf,—
Yr eiddoch yn gywir,

DEWI HEFIN.

MADAM PATTI.

Ein pet yw Madam Patti,—hi yw pen
Pawb i gain berori,
Cu linos i'w Nicolini—
Yn Nghraig y Nos eos yw hi.

BEN DAVIES (Glan Cerdin).

Manion ac Hanesion.

PRIODASAU.

Hydref 16, yn Nghapel y Bryn, gan y Parch. J. Davies, yn ngwydd y cofrestrydd, David, ail fab Mrs. Hannah Lloyd, Lletty'r Wenol, Llanwenog, ac Anne, ail ferch Mr. a Mrs. David a Margaret Richards, Penygraig, o'r un plwyf.

Yn dda ammod i'r ddau yma—troed
Hyd ben traeth eu gyrfa,
A'u hoes bur fo'n hynaws bara
Yn oes a ddwed "Priodas dda."

Anne a'i gwr fo byw yn gall—tlwy eu hoes
Troi o hyd rhag annghâll;
Hon ddaw ben a hwy'n ddi-ball
Eisieu i Ior roi oes arall.

Cwrtnewydd. GWARNANT WILLIAMS.

Hydref 31, yn Nghapel Caeronen, gan R. C. Jones, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. T. Thomas, Llanfair (A.), Mr. Daniel Evans. Tynlone, a Miss Mary Thomas Blaenwaun, Cellan

Dywed gohebydd o Lanbedr fod awduraeth y pennill, "Peth syn yw gwel'd 'ffeiradyn," &c, a ymddangosodd yn YR YMOFYNYDD ychydig amser yn ol, yn gamsyniol. Yr awdwr oedd Dewi Farfog o Lanbedr. Yr ydym yn ddiolchgar i'n gohebydd am alw ein sylw at y gwall.

CASNEWYDD.—Mae yr undeb a ffurfiwyd yn ddiweddar rhwng eglwysi Seisnig Undodiaid Cymru yn esgor ar lawer o waith rhagorol. Y cam olaf a gymmerwyd gan yr eglwysi hyn yw y cais i gychwyn achos Undodaidd newydd yn y

drel bwysig hon. Traddodwyd y bregeth neu yr anerchiad cyntaf gan y Parch. W. Copeland Bowie, Llundain, i gynnulliad da o bobl awyddus am glywed y gwirionedd, ac fe ddywed y papyrau dyddiol wrth sylwi ar y cyfarfod hwn, fod yna yspryd o ymchwiliad ar led yn y Casnewydd. yr hwn a ddangosodd ei hun yn y gofyniadau a roddwyd i'r darlithydd ar ddiwedd y cyfarfod. Mae y Parchn. W. A. Clarke, Abertawe, a George St Clair, Caerdydd, wedi bod yn pregethu yno ar ol Mr. Bowie. Hyderwn y llwyddir i ffurfio eglwys gref yn y dref borthladdol hon.

ABERDAR.—Cynaliwyd cyfarfod diolch am y cynauaf yn yr H D C., dydd Sul, Tachwedd 8, pan y gwasanaethwyd yn y bore a'r hwyr gan ein cyfaill aldermanaidd y Parch. John Davies i foddlonrwydd cyffredinol, ac yn y prydnawn yn felus iawn gan y Parch. W. J. Philips yn Saesneg Cafwyd oedfaon lluosog, a chasgliadau da at drysorfa tlodion y gynulleidfa.—Nos Fawrth y 17eg, cynaliwyd cyfarfod adloniadol llwyddianus o ganu ac areithio yn y *schoolroom* perthynol i'r capel. Prif amcan y cyfarfod oedd anrhegu Miss Anne Margaret Williams am naw mlynedd o flyddlondeb dibaid gyda'r harmonium. Cyflwynwyd yr anrheg, breichled a *brooch* a chlust-dlysau o aur pur, gan Mrs. Mary Davies. yr aelod hynaf yn bresenol, mewn ychydig eiriau pwrpasol. Cyfeiriwyd at Miss Williams fel un o'r ffyddlonaf o athrawon yr Ysgol Sul, ac fel un oedd yn barod i helpu yn mhob cyfeiriad. Cadeiriwyd gan Mr. Joseph Jenkins.

Marwgofion.

Hydref 12, yn 91 mlwydd oed, John Evans, Penlangyfeile, Llandyssul, Ceredigion. Yr oedd er's blynyddau yn gwaelu yn raddol, nid o herwydd un afiechyd neillduol, ond o herwydd henaint a gwendid cynnyddol. Treuliodd holl ranau y peiriant allan gyda'u gilydd, ac arosodd pob olwyn ar unwaith pan ballodd y *pendulum* chwareu. Wedi cael ei ddigoni â hir ddyddiau, a mwynhau cyflawnder o gysuron bywyd, aeth mewn henaint aeddfed i'r bedd fel y cyfyd ysgafn o yd yn ei hamser. Undodwr oedd o ran ei farn, a dygai fawr sel dros yr achos yn Pantdefaid. Colofn gref a syrthiodd ef. Fel gwleidiadwr, Rhyddfrydwr trwyadl ydoedd; nid rhyw benboethyn anystyriol a gorphwyllog yn gwisgo'r enw'n unig heb radd o ryddfryd iaeth yn ei galon. Medrai fod yn heddychol ag ereill o wahanol farn, yn grefyddol a gwleidyddol, gan ganiatau i ereill yr un rhyddid ag a hawliai iddo ei hun. Carai ddyfyrwch diniwed fel y teulu i gyd, ond gofalai beidio croesi r ffin pan y mae pleser yn troi yn bla. Ni fu yr ymadawedig erioed yn briod. Gadawodd ar ei ol mewn hiraeth ddau frawd a chwaer, dau o honynt wedi croesi llinell y pedwar ugain a'r llall ar yr ymyl. Dydd Gwener, yr 16eg, ymgynnullodd tyrfa fawr o berthynasau a chydnabod i'w hebrwng i'r gladdfa yn Pantdefaid, lle yr oedd brawd iddo wedi ei flaenu er Ebrill 22, 1872. Yn y capel darllenodd a gweddiodd y Parch. T. P. Phillips (A), a chyflawnwyd gweddill y gwasanaeth i fewn ac allan gan y Parch. T.T. Ffarwel, fy hen gyfaill. cu iawn fuost genyf fi er pan y'th adnabum gyntaf. Blaenaist arnaf enyd fach, ond yr wyf yn brysio ar dy ol.

Hydref 13, ar ol cystudd maith, yn 80 mlwydd oed, Mary Davies, Abercerdinen Isaf. Ar law ei dwy ferch oeddynt gyda hi yn nhref, cafodd yr ymadawedig y tiriondeb mwyaf trwy gydol ei chystudd maith, a dangoswyd iddi hefyd bob caredigrwydd gan y plant ereill sydd wedi priodi, a chan luaws o berthynasau a chydnabod. Undodwraig ydoedd, a phan y gallai, yr oedd yn hoff iawn o ddarllen yn neillduol y Testament Newydd, Emynau Mawl a Gweddi, a'r YMOFYNYDD, ond gan gymmaint ei hafiechyd, yr oedd yn aml yn cael ei hamddifadu o'r pleser hwn. Yr oedd o anian ddiniwed ac heddychol, ac ni chlywodd yr ysgrifenydd neb yn dweyd ond yr hyn oedd dda am dani. Claddwyd hi yn Nghapelygroes, y dydd Sul ar ol ei marwolaeth. Yn ol dymuniad yr ymadawedig, pregethodd y Parch. T.T. yn y ty cwrdd, oddiwrth Hebreaid xii. 14 Yr oedd y capel yn orlawn gan un o'r angladdau mwyaf a welwyd yn yr ardal erioed.

Hydref 17, yn 15eg mlwydd oed, John, anwyl fab Thomas a Margaret Morgan, Twllygwyddil, Cwmclydach, y rhai ydynt fel teulu yn aelodau ffyddlon yn hen eglwys Gellionen, o'r hon mae y tad yn ddiacon parchus er's blynyddau. Er colli eu mab pan oedd eu rhagolygon a'u gobeithion yn ymddysgleirio ar wanwyn ei fywyd, bydded iddynt yn ngwyneb yr amgylchiad chwerw gael nerth i alaru yn gymmedrol, a gobaith yr Efengyl fyddo yn eu cysuro yn eu tristwch. Dydd yr angladd daeth tyrfa luosog i'w hebrwng i dy ei hir gartref yn mynwent Gellionen, pryd y gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. J. Fisher Jones, gweinidog y lle.

Er colli cyfeillion mynwesol,
Mae gobaith er hyny, ryw bryd,
Yn ardal y gwynfyd tragwyddol,
Gael cwrdd â'n hanwyliaid i gyd.
L. H.

Hydref 31, Mary Thomas, Stafford House, Llanbedr, yn 40 mlwydd oed. Nid oedd Mrs. Thomas yn gryf o iechyd er's cryn amser, ond daeth ei diwedd yn hollol annysgwyliadwy i bawb. Yr oedd yn dylyn ei gorchwylion cyffredin fel arfer y dydd blaenorol, ond yn fuan wedi hanner nos yr oedd wedi glanio draw yn myd mawr yr ysprydoedd, a phawb yn cael eu synu boreu dranoeth wrth glywed am ei hymadawiad sydyn. Yr oedd yn cael ei hystyried yn fam dda, dyner, a darbodus, ac yn briod hawddgar, ac y mae ei symmudiad yn golled anadferadwy i'r teulu. Yr oedd rhai o'r plant wedi ei rhagflaenu i'r byd mawr, a phump wedi eu gadael ar ol yn wrthddrychau gofal eu tad galarus. Nid oes genym ond gobeithio y ca iechyd a nerth i filwrio drostynt ac i fod yn amddiffynfa iddynt. Heblaw priod a phlant, gadawodd ar ol mewn galar fam oedranus a brodyr a chwiorydd. Yr oedd Mrs Thomas yn aelod selog a ffyddlawn gyda'r Annybynwyr. Ar ddydd ei hangladd daeth torf anarferol o fawr i hebrwng ei gweddillion i fedd yn mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y Parch. Mr. Evans (A.), a'r Parch. Mr. Thomas (B.), ac R. C. Jones.

Tachwedd 8, o'r *croup*, yn 7 mlwydd oed, Hannah, merch Evan a Mary Evans, Pwllffine, Llandyssul. Claddwyd hi yn Pantdefaid, y dydd Mercher canlynol. Er mor anarferol ystormus yr hin, daeth torf fawr o bobl i'w hangladd, a phregethodd y Parch. T.T. yn y capel.

"Aeth diniweidrwydd at ei Dduw,
Dros byth i fyw'n ei phurdeb."

Tachwedd 17, ar ol byr gystudd, yn 68 mlwydd oed, James Evans, dilledydd, Overton Street, Dowlais. Genedigol oedd y cyfaill hwn o ardal Llandyssul, lle mae brawd a chwaer iddo yn byw etto, ond yn Nowlais y treuliodd efe y deugain mlynedd diweddaf o'i oes. Yr oedd Mr. James Evans yn dra adnabyddus, nid yn unig i luaws mawr o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD, ond trwy barthau eang o Sir Forganwg, lle y dygid ef yn aml gan helyntion ei fasnach. Y gweinidogion Undodaidd a ymwelent â Dowlais a gawsent gartref cysurus a llon'd cae o groesaw bob amser yn ei dy. Anaml y ceid neb yn fwy llettygar i ddyeithriaid nag ef a'i briod. Yr oedd yn Undodwr selog, a bu yn aelod parchus a haelionus o'r eglwys yn yr Hen-Dy-Cwrdd, Cefn, am flynyddau meithion, a phan adeiladwyd y capel newydd yn Nowlais, ymaelododd efe a'i deulu yno. Efe ydoedd trysorydd y drysorfa at adeiladu y capel, ac nid yn unig cyfranodd efe ei hun yn dda iddi, ond bu yn ffyddlon i'w ymddiriedaeth, a gwnaeth ei waith i foddlonrwydd pawb. Yn wir, nid oedd unrhyw fudiad mewn cyssylltiad â'n henwad nad oedd efe yn sicr o roddi help iddo rhag ei flaen. Mae yn anhawdd dirnad y golled ar ol y fath gymmwynaswr. Ond er fod colled yr eglwys yn fawr, mae eiddo ei deulu yn annhraethol fwy. Ni fu erioed briodmwy gofalus o'i deulu, na thad mwy cariadus at ei blant na Mr. James Evans. Yr oedd i fyny â'n *ideal* ni o'r hyn y dylai tad fod. Eiddunwn am nodded Tad mawr pob bod ar ei weddw anwyl a'r tri phlentyn ydynt wedi eu gadael yn amddifaid. Y Sadwrn canlynol hebryngwyd ei weddillion i orphwys yn mynwent yr Hen-Dy-Cwrdd, gan dorf o'i gydnabod yn Nowlais a'r gymmydogaeth. Cyn cychwyn o'r ty darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. Hathren Davies, a gwasanaethwyd yn y capel gan y Parchn. Ifor Davies, Hathren Davies, ac R. J. Jones, M.A., Aberdar. Ffarwel, gyfaill anwyl, buan y deuwn ninau ar dy ol.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."

YR YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL XVI.—1892.

ABERDAR:

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., 16, COMMERCIAL PLACE.

1892.

CYNNWYSIAD.

	TUD
Adolygiad y Wasg	15
A alwyd yn Saint	86
Ar ol sychder, gwlaw	141
Adgof uwch annghof	172
Adgofion Islwyn	244
Bachgen a'r nodwydd, Y ..	82
Beth yw Crist i ni?	121
Cynghanedd	12, 57
Carol Haf	126
Cenfigen	128
Can'mlwyddiant y Marseillaise ..	149
Colli'r Blaenor da	183
Cymmanfu Ganu Morganwg ...	187
Crefydd a Gwyddor	202
Cynghor	203
Cyfarfodydd Blynyddol	212
Capel Blaengwrach	214
Cymry Annghofiedig	254
Cyrddau Chwarterol, Y	261
Crefyddwyr a'r Fasnach Feddwol ..	269
Crefydd a Bywyd	273
Dewis y Llwybr dyogel.. ..	18
Dammeg yr Hwsmon	60
Dewi Dawel	70
Dybaco, Y	85
Dr. John Thomas a'r Undodiaid, Y	160
Dweyd neu Peidio Dweyd ...	179
Dywedyd y Gwir	180
Dyfal donc a dyr y garreg ...	130
Eglwys ac Erlidigaeth, Yr ..	9
Einioes	55
Emyn Angladd..	99
Englynion, &c...	110
Etholiad, Yr	156
Englynion er cof	232
Ein Cymmanfaoedd Canu ..	270
Elusen	238
Ffordd i ennill llwyddiant, Y ..	20
Ffaith ryfeddach nâ Ffug ..	56
Ffordd yr ymddialodd Rhys, Y ...	107
Gwyddoniaeth a Chrefydd ...	23
Gweddnewidiad Bywyd ..	193, 217
Gwareiddiad	42
Galargan	52
Gwanwyn, Y	82
Gwron Bach, Y..	133
Hen Bennillion.. ..	104, 132
Hen Emyn	135

	TUD.
Hen Arfer ffol	253
I'r hen wr wedi meddwi	87
John James, Gellionen ... 30,	145, 228
John James, Llandyssul, Mr. ...	41
Jonah, Llyfr	100
Llundain a'r Cyfarfodydd Mai ..	150
Llef ddystaw fain, Y	172
"Lead, kindly light" ...176,	199, 225
Manion a Hanesion .. 22,	45, 71, 94, 118, 142, 166, 190, 215, 239, 263
Marwgofion ..22, 46, 72, 96, 118,	142, 168, 192, 216, 240, 264, 283
Mordaith Bywyd	68
Melodedd . 79,	105
Mesur Mr. Alfred Thomas ..	102
Massage	245
Myfyrdod	272
Nodynau Gwasgarog ..16, 43, 62,	88, 112, 136, 162, 184, 204, 234, 258, 280
Norwood Bach	247
"Ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod"	268
Ole Bull ac Ericsson	127
Person a Phersonoliaeth ...	6, 247
Pregeth .. 49, 73, 97,	241, 265
Pwys o bethau bychain, Y ..	69
Pedwar Pregethwr enwog ..	169
Parch. William Rees, Rhydygwin, Y	196
Pryd a ph'le i ddarllen	197
Pe deuai angel mawr	276
Rhyddid Gwladol a Chrefyddol ..	1
Rhinweddau gwahanol ddiodydd ..	55
Rhys Morgan o Bencraignedd ..	175
Spurgeon, Y diweddar Mr. ..	53
Sant Bradlaugh	130
Salm Gyntaf, Y	155
Sut y gwynebodd hi yr ystorm ..	276
Tuag adref	30
Thomas R. Davis	33
Un rhyfedd iawn yw dyn.. ..	
Ymweliad â'r Amerig	38
Y ddau air	76
Y ddau arlunydd	77
Yn mhob gwlad y megir glew ..	221
Ymweliad â Bath	221
YMOFYNYDD y flwyddyn nesaf ..	274